# COFNODION PWYLLGOR Y TY

**Dyddiad**: 18 Mawrth 2004

**Amser**: 9.00am

**Lleoliad**: Ystafell Gynadledda B

**Aelodau'n bresennol:**
Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democratiaid Rhyddfrydol
Janet Davies, AC Plaid Cymru
William Graham, AC Ceidwadwyr
Janice Gregory, AC Llafur
Karen Sinclair, AC Llafur
Y Llywydd (yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**
Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
John Bowley, Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Corfforaethol
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad
Karin Phillips, Pennaeth Gwasanaethau Ymchwil a Phwyllgor yr Aelodau
Peter Jones, Cwnsler y Pwyllgorau Pwnc
Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffïoedd
Nerys Evans, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Sara Lloyd, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty
Rita Phillips, Dirprwy YP i'r Llywyddion

## 1 <u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi</u>

1.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr eu cyhoeddi ar 11 Mawrth 2004.

1.2 <u>Diweddaru'r Amserlen Weithredu HC(02)-02-04(p1)</u>

<u>Caffael</u>

Nodwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Mai o bwyllgor y Ty ar yr ymgais i symleiddio caffael ar gyfer siop y Cynulliad

**Gweithredu: Gwen Parry**

Ffigurau Staffio

Byddai ffigurau staffio ar gyfer Swyddfa'r Llywydd yn cael eu dosbarthu allan o'r Pwyllgor

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd

Byddai cyfarwyddyd i Aelodau o safbwynt swyddfeydd/ meddygfeydd etholaethol a materion staffio yn cael ei ddosbarthu yn y dyfodol agos.

**Gweithredu: Yr Is-Adran Gyfreithiol**

Panel Ymgynghorol y Celfyddydau

Bydd papur wedi ei gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf yr Is-Grwp Celfyddydau er mwyn hysbysu'r aelodau am unrhyw gynigion gan Banel Ymgynghorol y Celfyddydau.

Gosod system hidlo ar yr e-bost

Nodwyd nad oedd yn bosibl gosod system hidlo "spam" ar gyfer defnyddwyr unigol gan fod y system wedi ei gosod ar y gweinyddwr a'i fod yn otomatig yn dileu pob "spam". Gofynnodd yr aelodau am i'r rhybuddion am ddileu spam gael eu blocio. Roedd y mater wedi ei gyfeirio i Grwpiau'r Pleidiau gan Aelodau o'r Is-Grwp TGCh a byddai ymatebion yn derbyn sylw gan Gadeirydd y grwp hwnnw.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Gwnaed cais hefyd gan Aelodau am ymchwiliad i'r modd y mae'r system hidlo firws yn gweithredu gan fod rhai ffeiliau dilys wedi eu dileu.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Man gorffwys i'r Staff Diogelwch

Cadarnhawyd gan swyddogion y byddai man gorffwys wedi ei chwblhau yn y dyfodol agos.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Adnoddau Ysgrifennu ar gyfer Aelodau

Roedd ymholiadau ar y gweill ynglyn â'r posibilrwydd o gael danfon deunydd ysgrifennu yn uniongyrchol i swyddfeydd yr etholaethau. Roedd nifer o ddewisiadau dan ystyriaeth, yn eu plith darparu stoc

i'w gasglu o'r swyddfa ym Mae Colwyn a danfon stoc i swyddfeydd yr etholaethau fesul un.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Codwyd mater yn ymwneud â gwerth stampiau post ar amlenni C4. Dywedodd Nerys Evans y byddai'r Ty Cyffredin yn adrodd yn fuan ar arfarniad o'r graddfeydd talu ymlaen llaw y cytunwyd arnynt. Byddai adroddiad ar y mater hwn yn dod gerbron cyfarfod nesaf EFLG.

**Gweithredu: Nerys Evans**

<u>Grym y Dwr yn Nhoiledau'r Anabl</u>

Dywedodd karen Sinclair bod grym y dwr yn nhoiledau'r anabl yn yr adeilad wedi gwella er ei fod yn dal yn uchel. Nododd Nerys Evans mai'r unig gam pellach y gellid ei gymryd i wella'r grym fyddai gosod tapiau newydd. Dywedodd Karen Sinclair ei bod hi'n fodlon gyda'r camau oedd wedi eu cymryd eisoes. Fodd bynnag, gellid edrych eto ar y mater pe byddai cwyn yn dod i law.

<u>Cofrestru Grwpiau Traws-Bleidiol</u>

Nodwyd bod y Swyddfa Gyflwyno wedi dosbarthu cyfarwyddyd a ffurflenni cofrestru i'r holl Aelodau. Gofynnodd yr aelodau am i'r rhestr gofrestredig o grwpiau fod ar gael ar y Fewnrwyd a'r Rhyngrwyd.

**Gweithredu: Y Swyddfa Gyflwyno**

<u>Acwsteg yn y Siambr</u>

Nodwyd gan yr aelodau bod swyddogion wedi cymryd pob camau posibl i wella'r acwsteg yn y Siambr.

<u>Stationery Office</u>

Byddai'r Stationery Office yn cyflwyno cynigion i'r Cadeirydd a Gwen Parry yn ymwneud â'r posibilrwydd o gynhyrchu CD o dymor cyntaf y Cynulliad.

<u>Ystafell Ysmygu Adeilad y Pierhead</u>

Yn dilyn yr eitem hon ar agenda'r cyfarfod blaenorol a'r bleidlais negyddol gan y Pwyllgor yn dilyn pleidlais fantol y Cadeirydd, dywedodd y Cadeirydd ei fod am i'r Pwyllgor ailystyried mater ystafell ysmygu ar gyfer staff yn adeilad y Pierhead gan ei fod wedi canfod bod darpariaeth wedi ei gynnwys yng nghontractau cyflogaeth y gweithwyr. Cytunwyd y byddai materion yn ymwneud

â chontractau staff yn cael eu harchwilio; hefyd byddai'n ofynnol ymgynghori â'r undeb.

**Gweithredu: Yr Is-Adran Gyfreithiol**

Gofynnodd yr aelodau hefyd am wybodaeth am unrhyw amodau y byddai'n rhaid cwrdd â hwy wrth sefydlu ystafell ysmygu yn adeilad y Pierhead, sydd yn adeilad rhestredig Gradd 1. Gofynnwyd i swyddogion ystyried y mater hwn. Byddai'r eitem yn ymddangos ar yr agenda ar gyfer y cyfafod nesaf.

**Gweithredu: Nerys Evans**

**2 <u>Materion yn Codi o Gyfarfodydd yr Is Grwpiau</u>**

2.1 <u>Is Grwp Celfyddydau</u>

Roedd yr Is Grwp Celfyddydau wedi ei ohirio

2.2 <u>Cyfarfod yr Is Grwp Arlwyo 3 Mawrth 2004 HC(2)-02-04(p2)</u>

Cytunodd yr aelodau i gadarnhau'r cofnodion a'r argymhellion yn cynnwys adolygu'r prisiau arlwyo. Gofynnwyd i'r Is Grwp Arlwyo a swyddogion adolygu prisiau cyflenwyr contractau arlwyo a phrisiau cyfanwerthu er mwyn sicrhau prisiau rhesymol a theg a sicrhau nad oedd canrannau elw afresymol o uchel ar yr eitemau a werthir.

Gofynnwyd hefyd i'r Is Grwp Arlwyo ystyried cymhelliannau contractau arlwyo er mwyn sicrhau gwerth gorau am arian wrth sicrhau nwyddau. Nodwyd y dylid safoni prisiau lle byddai hynny'n addas, er enghraifft, prisiau te a choffi yn y gwahanol fannau lle gwerthir hwy.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Nodwyd gan aelodau nad oedd cwpanau llestri ar gael yn y bwyty nac yn Neuadd y Cynulliad ac y gallai cwpanau papur fod yn fwy peryglus mewn mannau cyhoeddus. Dywedodd Nerys Evans bod lefel y llestri yn isel a bod y nwyddau hyn wedi eu hail archebu. Byddai cwpanau llestri ar gael yn Neuadd y Cynulliad ac yn y bwyty cyn gynted ag y byddent yn cyrraedd.

Nodwyd bod cwsmeriaid yn defnyddio'r cynwysyddion cludfwyd plastig a geir yn y bar salad, hyd yn oed pan fyddant yn bwyta yn y bwyty. Dylid annog cwsmeriaid i ddefnyddio'r platiau sydd ar gael er mwyn osgoi gwastraff diangenrhaid. Gofynnwyd i swyddogion ymchwilio i gynwysyddion pydradwy ac amgylcheddol gyfeillgar i'w defnyddio yn lle 'r cynwysyddion plastig, ac hefyd arwyddion yn annog defnyddio platiau.

**Gweithredu: Nerys Evans / Avenance**

Cytunodd Aelodau y dylid rhoi ystyriaeth rhag blaen i'r cynlluniau ar gyfer pwyntiau mynediad o adeilad newydd y Siambr i'r bont gyswllt er mwyn creu cyn lleied ag sydd bosibl o anhwylustod.

**Gweithredu: Dianne Bevan**

2.3 Cyfarfod Grwp Cyswllt Cyfarpar a Chyfleusterau 8 Mawrth 2004 HC(2)-02-04(p3)

Nodwyd gan yr aelodau bod ceir yn cael eu dal yn y graean ym maes parcio Queensgate. Dywedodd Nerys Evans ei bod wedi rhoi gwybod i ABP am y broblem ac y byddai hefyd yn ysgrifennu at ABP.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Roedd yr hyfforddiant Cyfleoedd Cyfartal a drefnwyd gan Swyddfa'r Llywydd yn ddiweddar wedi amlygu materion yn ymwneud o bosibl ag Aelodau yn eu swyddogaeth fel cyflogwyr. Gofynnwyd i swyddogion drefnu seminar ACAS ar gyfleoedd cyfartal a chyflogi staff ar gyfer Aelodau ac i ail-argraffu llyfryn ACAS, yn cynnwys dalen glawr gyda phwyntiau bwled, i'r holl Aelodau.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod.

2.4 Cyfarfod y Grwp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu HC(2)-02-04(p4)

System Pleidleisio yn y Siambr

Nodwyd pryder yr aelodau o safbwynt anghysonderau yn y system bleidleisio electronig. Dywedodd y Llywydd bod y system wedi ei gosod ar fyr rybudd ym 1999 a bod y feddalwedd weithredol wedi dyddio. Fodd bynnag, roedd swyddogion yn gwneud pob ymdrech i sicrhau y byddai'r system wedi ei huwchraddio ymhellach yn ystod gwyliau'r Pasg.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod.

## 3 Adroddiadau gan Glerc y Cynulliad

3.1 Adroddiad ar Gyllideb Swyddfa'r Llywydd HC(2)-02-04(p5)

Cytunodd yr aelodau i gynnal cyllideb Cyflogau a lwfansau Aelodau

Croesawyd y cynnydd mewn lefelau cadw staff yn Swyddfa'r Llywydd. Nodwyd bod y gyllideb costau staffio yn y gorfennol wedi tanwario. Fodd bynnag, ni ragwelid unrhyw danwariant ar gyfer 2004-05 oherwydd y gwelliant o safbwynt ricriwtio a chadw staff.

Cytunodd yr aelodau i dderbyn dyraniad y gyllideb costau staffio gan wneud cais am adroddiadau rheolaidd ar lefelau staffio.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

Cytunodd yr aelodau i dderbyn dyraniadau Gwariant Gweinyddol Cyffredinol a thrafodwyd pa brosiectau y dylid eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod, yn wyneb y posibilrwydd y byddai'n ofynnol cyllido  rhai prosiectau unai yn rhannol neu yn gyfangwbl o'r hyblygrwydd diwedd blwyddyn, fel a ganlyn:

<u>IS-ADRAN GWASANAETHAU CORFFORAETHOL</u>

<u>Lleithio Systemau Awyru</u>

Dywedodd John Bowley bod nifer o aelodau staff, yn dilyn yr asesiadau Cyfarpar Sgriniau Arddangos, wedi cwyno bod eu llygaid yn sych ac yn anghyfforddus yn yr adeilad. Gwnaed nifer o brofion monitro aer a dangosodd y darlleniadau bod lefel y lleithder rhwng Hydref a Mawrth yn isel. Cytunodd yr aelodau mewn egwyddor i gario ymlaen gyda'r prosiect gan ofyn am ragor o fanylion am y system lleithio a'r gwir gostau tendro.

**Gweithredu: Nerys Evans**

<u>System Wresogi'r Atriwm</u>

Cytunodd yr aelodau i symud ymlaen gyda'r prosiect yn amodol ar y gwir gostau tendr. Nodwyd y byddai hyn yn golygu arbedion ar gostau gwresogi.

**Gweithredu: Nerys Evans**

<u>System Oeri Neuadd y Cynulliad</u>

Yn ystod misoedd yr haf y llynedd cafwyd nifer o gwynion gan aelodau'r cyhoedd eu bod yn teimlo'n wan ac yn anghyfforddus oherwydd y gwres. Cytunodd yr aelodau i fynd rhagddynt â'r prosiect yn amodol ar gostau tendr.

**Gweithredu: Nerys Evans**

<u>Goleuo Tyllau Grisiau a Thoiledau</u>

Derbyniodd yr aelodau gynnig ar sail cynaladwyedd i osod

sensoriaid fel y byddai goleuadau yn yr adeilad yn diffodd yn awtomatig pan na fyddent yn cael eu defnyddio.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Nodwyd gan yr aelodau hefyd bod bylbiau golau ynni isel yn cael eu gosod yn yr adeilad ble bynnag yr oedd y gosodiadau yn caniatau.

Intercom yn y Tyllau Grisiau

Yn amodol ar ragor o wybodaeth a thendrau, derbyniodd yr aelodau'r prosiect i osod system intercom yn y tyllau grisiau, fel rhan o weithdrefnau argyfwng a gwagio'r adeilad mewn achos o dân.

**Action: Nerys Evans**

Arwyddion y Tu Allan

Nodwyd gan yr aelodau nad oedd caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer arwyddion mewn blychau wedi eu goleuo y tu allan. Cytunodd aelodau i beidio â mynd rhagddynt gydag unrhyw gynlluniau eraill.

Newid Systemau Gwresogi yn Adeilad Pierhead

Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r cais ac i ofyn am ganiatâd gan CADW cyn newid unrhyw osodiadau gwresogi. Dylid edrych hefyd a fyddai'n bosibl derbyn grant gan CADW. Byddai gwybodaeth bellach a manylion am y tendrau yn cael eu cyflwyno i gyfarfod o Bwyllgor y Ty yn y dyfodol.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Gosod To Newydd ar Adeilad y Pierhead

Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r cais i osod to newydd ar adeilad y Pierhead. Dylid hefyd edrych a fyddai'n bosibl derbyn grant gan CADW. Byddai gwybodaeth bellach a manylion y tendrau yn cael eu cyflwyno i gyfarfod o Bwyllgor y Ty yn y dyfodol.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Gwaith  adferol arall ar du allan adeilad y Pierhead

Nodwyd gan yr aelodau y gellid gwneud arbedion pe câi gwaith adferol pellach ei gwblhau ar du allan adeilad y Pierhead tra byddai'r sgaffaldiau yn eu lle. Cymeradwywyd y cynnig gan yr aelodau. Dylid hefyd edrych a fyddai'n bosibl derbyn grant gan

CADW. Byddai gwybodaeth bellach a manylion y tendrau yn cael eu cyflwyno i gyfarfod o Bwyllgor y Ty yn y dyfodol.

**Action: Nerys Evans**

Gosod System Oeri Aer yn Adeilad Pierhead

Byddai amcangyfrifon cyn-dendr ar gyfer y prosiect hwn ar gael ym mis Ebrill a byddai adroddiad gerbron y cyfarfod nesaf o Bwyllgor y Ty. Byddai’r prosiect yn cyfrannu tuag at amgylchedd gweithio cysurus i’r staff yn yr adeilad. Cymeradwywyd y prosiect mewn egwyddor gan yr aelodau.

**Gweithredu: Nerys Evans**

Diffyg yn nyluniad awyrell yr Atriwm yn arwain at ollwng dwr glaw.

Cytunodd Aelodau i symud ymlaen gyda’r gwaith trwsio angenrheidiol. Byddai cynigion ac amcangyfrifon cyn-tendr yn cael eu cyflwyno i gyfarfod o’r Pwyllgor yn y dyfodol.

**Gweithredu: Nerys Evans**

GWASANAETHAU CYFATHREBU’R CYNULLIAD

Teithiau Awdio

Mynegodd yr aelodau bryder am yr amcangyfrif o’r costau. Dywedodd Gwen Parry bod y costau yn adlewyrchu gwir gostau tendr gwerth gorau. Cymeradwywyd y prosiect mewn egwyddor gan yr aelodau, yn amodol ar adolygiad o gostau i’w ystyried gan y Pwyllgor ac ymholiadau ymysg sefydliadau eraill megis CADW ynglyn â chostau cymharol cyfleusterau tebyg.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Fideo yn Darparu Gwybodaeth i’r Cyhoedd i’w ddefnyddio gan holl dimau Gwybodaeth i’r Cyhoedd

Roedd yr aelodau yn cefnogi’r prosiect mewn egwyddor ac yn cefnogi darparu BSL neu ïs deitlo ar y fideo. Byddai Gwen Parry yn cysylltu â‘r RNID. Gofynnodd yr aelodau am i’r costau gael eu harchwilio yn gyntaf.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Arddangosfa Owain Glyndwr

Mynegodd yr aelodau gefnogaeth i ddarparu a chaffael cyfarpar ar gyfer yr arddangosfa ac a fyddai ar gael i’w ddefnyddio mewn

mannau eraill wedi hynny, am y pris gostyngol o tua £7k.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Prosiectau Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer y Siambr Newydd

Cytunodd Aelodau i beidio â defnyddio cyllidebau Pwyllgor y Ty ar y prosiectau i ddarparu capsiwl amser, llyfr bwrdd coffi a hysbysfyrddau.

CALRE- Llywyddiaeth y Gynhadledd

Cytunodd yr aelodau i gefnogi'r cynnig i wahodd a llywyddu CALRE a gwnaed cais am edrych am ostyngiadau pellach yn y costau.

**Gweithredu: Gwen Parry**

GWASANAETHAU YMCHWIL A PHWYLLGORAU AELODAU

Prosiectau Ymchwil Allanol

Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r cyfleuster ar gyfer ymchwil allanol i gefnogi adolygu polisiau'r pwyllgorau.

GWASANAETHAU'R SIAMBR A'R SWYDDFA GYFLWYNO

Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r gyllideb ar gyfer Costau Cynadleddau a Chyfarfodydd Allanol (Pwyllgor Busnes) a Threuliau (Pwyllgor Safonau).

Ymgynghorwyr Rheoli (Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau)

Roedd y Pwyllgor Safonau wedi argymell cynyddu'r dyletswyddau sydd ynghlwm wrth swydd yr Ymgynghorydd Annibynnol. Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r costau uchaf a amcangyfrifwyd ar gyfer apwyntiad i'r swydd, pe byddai angen.

**Gweithredu: Andrew George**

Materion Cyllid Cyffredinol

Gofynnodd yr aelodau am i wybodaeth gyllidebol fanylach gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor o hyn allan fel rhan o'r papur sefydlog ar gyllid, a hynny ar ffurf y dadansoddiad GAE oedd wedi ei amgau gyda phapur y gyllideb.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

Hysbysodd Dianne Bevan y Pwyllgor bod cais i ystyried ariannu rhai agweddau o ddodrefnu adeilad y Siambr newydd yn debygol o

gael ei gyflwyno i gyfarfod o Bwyllgor y Ty yn y dyfodol.  Roedd y cyfan o'r prosiectau presennol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn fforddadwy o fewn adnoddau cyllidol Swyddfa'r Llywydd, fodd bynnag roedd yn bosibl y byddai ceisiadau ychwanegol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Nodwyd gan aelodau'r Pwyllgor hefyd bod ceisiadau ychwanegol yn bosibl o safbwynt unrhyw ofod dros ben yn Adeilad y Cynulliad wrth drosglwyddo adnoddau i adeilad newydd y Siambr.

3.2 Papur ar Berfformiad yn erbyn targedau HC(02)-02-04(p6)

Dywedodd y Clerc bod y dangosyddion perfformiad yn dangos gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn, yn enwedig o safbwynt Cofnod y Trafodion.

Roedd y dyddiadau olaf ar gyfer ceisiadau ymchwil Aelodau yn cael eu cwrdd.

Roedd nifer y ceisiadau am gyfieithu yn parhau i gynyddu.

3.3 Côd Ymarfer Pwyllgor y Ty

Ymddiheurodd Dianne Bevan am yr oedi o safbwynt cyflwyno'r Côd Ymarfer. Roedd ymgynghori ar y mater cymhleth hwn yn parhau a rhagwelid y byddai papur yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o Bwyllgor y Ty.

## 4 Cyfleusterau'r Aelodau

4.1 Gweithgareddau Cysylltiadau Tramor ac Allanol HC(02)-02-04(p7)

Nododd yr aelodau yr adolygiad o weithgareddau cysylltiadau tramor ac allanol ers 29 Ionawr 2004.

4.2 Cynhadledd (Llywyddion) Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop – Llywyddiaeth 2004/5

Dywedodd Gwen Parry y byddai'n darparu papur ar gyfer y cyfarfod nesaf ar ddatblygiadau yn ymwneud â menter fyddai yn galluogi'r rhai sydd yn weithredol yn CALRE i gyfrannu tuag at gronfa arian ganolog i gwrdd â chostau'r ysgrifenyddiaeth a chostau cyfieithu.  Nododd y Pwyllgor y cais gan CALRE i ofyn am rhwng £1,500 a £2,000 gan gyrff deddfwriaethol sy'n aelodau.

**Gweithredu: Gwen Parry**

4.3 Cofnod Gair am Air o Drafodion y Pwyllgor (treialu) HC(02)-02-04(p8)

Rhoddwyd ystyriaeth gan yr aelodau i ddarparu cofnod gair am air

o Drafodion y Pwyllgor a nodwyd y gwaith ychwanegol a olygai hyn. Trafodwyd hefyd y dewisiadau ar gyfer arbed costau o safbwynt Trafodion y Pwyllgor Llawn er mwyn rhyddhau adnoddau i gofnodi gweithgareddau Pwyllgorau.

Cytunodd yr aelodau i ymgynghori â grwpiau'r pleidiau ar y mater hwn. Gofynnodd yr aelodau hefyd am bapur pellach yn cynnwys ymgynghoriad â'r Pwyllgor Diwylliant yn ogystal ag ymgynghoriad allanol trwy gyfrwng gwefan y Cynulliad. Byddai'r aelodau yn derbyn adroddiad ar nifer yr ymweliadau â'r wefan ar gyfer y fersiynau o Gofnod y Trafodion.

**Gweithredu: Gwen Parry**

4.4 Cardiau Nadolig y Cynulliad

Cytunodd yr aelodau na fyddai'r Cynulliad yn paratoi cardiau Nadolig i'w gwerthu yn 2004. Dylid annog aelodau i brynu o ffynonellau allanol, er enghraifft cardiau gan elusennau neu gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Gofynnodd yr aelodau am i brisiau unrhyw gardiau oedd yn weddill gael eu gostwng er mwyn eu gwerthu.

**Gweithredu: Gwen Parry**

4.5 Adolygiad o'r canllawiau ar gyfer llogi a defnyddio Neuadd y Cynulliad a Mannau Cyhoeddus HC(02)-02-04(p9)

Byddai'r papur hwn yn cael ei ail ddrafftio a'i gyflwyno i Bwyllgor y Ty ym mis Mai.

**Gweithredu: Gwen Parry / Nerys Evans**

4.6 Adeilad Newydd – Addysg a Gwybodaeth – Chwilio am Noddwyr HC(02)-02-04(p10)

Cytunodd yr Aelodau i beidio â mynd rhagddynt gyda'r opsiwn o chwilio am noddwyr ar gyfer y prosiectau arfaethedig.

4.7 Adolygiad o Faterion Anabledd

Nodwyd bod Peter Black wedi gwneud cais am bapur yn adolygu materion yn ymwneud â mynediad ar gyfer yr anabl yn dilyn cwestiwn gan Bwyllgor y Ty yn y Siambr ar 11 Chwefror. Byddai hwn ar gael mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 5 Materion Staffio

5.1 Menter Rheoli Sector Cyhoeddus HC(02)-02-04(p11)

Nodwyd y cynnydd a wnaed a mynegwyd cefnogaeth i'r cyfraniad y bwriedid ei wneud tuag at y fenter.

## 6 Adeiladau

### 6.1 Mân Waith Newydd

Dywedodd Nerys Evans bod tendrau wedi dod i law ar gyfer uwchraddio'r system Deledu Cylch Cyfyng. Roedd y tendrau hyn o fewn yr amcangyfrif cyn-dendr y cytunwyd arnynt ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor. Byddai gwaith yn cychwyn yn ystod gwyliau'r Haf.

**Gweithredu: Nerys Evans**

### 6.2 Y Diweddaraf am Ystad y Cynulliad HC(02)-02-04(p12)

Nododd y Pwyllgor benderfyniad Partneriaeth Bae Caerdydd i beidio â chynnal trafodaethau gyda'r Cynulliad o safbwynt y posibilrwydd o brynu tir y drws nesaf i siambr newydd y Cynulliad.

### 6.3 Y diweddaraf am Faterion Darlledu yn ymwneud ag Adeilad Newydd y Siambr.

Roedd papur wedi ei ddosbarthu i aelodau y tu allan i bwyllgor y diwrnod cynt. Nododd yr aelodau y diweddaraf ar faterion yn ymwneud â darlledu yn y Siambr newydd a chytunwyd ar opsiwn yn ymwneud â dyfodol Cwmni Darlledu'r Cynulliad.

## 7 Materion Ariannol

### 7.1 Adroddiad Cyllid   HC(2)-02-04(p13)

Nodwyd papur yn cynnwys trosolwg ar wariant canghennau Swyddfa'r Llywydd hyd at ddiwedd Chwefror 2004. Cadarnhawyd gan swyddogion bod rhai costau staff wedi eu rhoi yn erbyn y Gwasanaethau Corfforaethol a hynny trwy gamgymeriad. Byddai'r côd rheoli yn cael ei gywiro ar restr cyflogres mis Mawrth. Roedd y camgymeriadau wedi digwydd oherwydd trosglwyddo staff i Lywodraeth Cynulliad Cymru

### 7.2 Darparu Gwasanaethau Cyfieithu ar y Pryd i Aelodau – Penderfyniad HC(02)-02-04(p14)

Cytunodd yr aelodau i gefnogi darpariaeth cyfieithu ar y pryd i grwpiau o bump Aelod neu ragor mewn cyfarfodydd yn ymwneud â

busnes y Cynulliad. Byddai cyllideb bresennol yr Uned Gyfieithu yn cwrdd â’r costau a byddai’r galw am y gwasanaeth yn cael ei fonitro.

**Gweithredu: Gwen Parry**

Byddai penderfyniad dan adran 34A o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Llawn maes o law.

**Gweithredu: Y Cadeirydd**

7.3 Cadw gafael ar Gofnodion Gweinyddol Aelodau’r Cynulliad HC(02)-02-04(p15)

Cefnogodd yr aelodau gynigion i newid yr ymarfer presennol yn ymwneud â chadw gafael ar gofnodion gweinyddol, yn unol â’r trefniadau a fabwysiadwyd yn y Ty Cyffredin.

Cytunodd yr aelodau y dylid gofyn am gyngor anffurfiol gan y Comisiynydd Gwybodaeth ac y dylai swyddogion ymgynghori â’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac â Chyllid y Wlad er mwyn cael eu barn ar y cynnig; dylid hefyd gofyn am gyngor gan y Swyddog Cofnodion Adrannol ar unrhyw gyfyngiadau dan y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus.

Gwnaed cais gan yr aelodau bod Aelodau’r Cynulliad, cyn i’r Cynulliad wneud i ffwrdd â’u cofnodion, yn cael y dewis o ddal eu gafael yn eu cofnodion hwy eu hunain.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

7.4 Cyhoeddi Manylion Cyflogau a Lwfansau Aelodau HC(02)-02-04(p16)

Adroddwyd gan y Cadeirydd ei fod ef a Wayne Cowley wedi cyfarfod â’r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd yn ofynnol i’r Cynulliad ystyried y modd y câi manylion lwfansau Aelodau eu cofnodi yn y dyfodol, yng ngoleuni gofynion y Ddeddf Rhyddid i Wybodaeth 2000 (a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2005).

Roedd Aelodau yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â datgelu cyflogau staff a data personol arall. Nodwyd y byddai Aelodau yn cael cyfle i wirio’u manylion cyn eu cyhoeddi.

Cytunodd yr aelodau y dylai cyhoeddi manylion fod yn rhan o adroddiad blynyddol Pwyllgor y Ty sy’n ymddangos ar wefan y Cynulliad. Cefnogodd yr aelodau yr argymhelliad yn amodol ar drafodaethau pellach gyda’r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

7.5 Adolygiad Corff Adolygu Cyflogau Uwch-Swyddogion (SSRB) o Gyflogau a Lwfansau Aelodau HC(02)-02-04(p17)

Cymeradwyodd yr aelodau lythyr draft yr SSRB gan ofyn am i'r llythyr gynnwys cais am adolygu taliadau ychwanegol i Staff Cefnogol Aelodau'r Cynulliad. Yn amodol ar un diwygiad bach, byddai'r llythyr yn cael ei gyflwyno i'r Llywydd.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

## 8 Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau'r Cynulliad

Roedd OAQ31944 a OAQ31943 wedi eu cyflwyno ar gyfer ateb yn y pwyllgor llawn ar 11 Chwefror 2004. Roedd copïau o'r atebion wedi eu dosbarthu i Aelodau.

Roedd WAQ31484 a gyflwynwyd ar gyfer ateb ar 22 Ionawr 2004; WAQ31744 29 Ionawr 2004; a WAQ33142 a gyflwynwyd ar gyfer ateb ar 11 Mawrth wedi eu dosbarthu i Aelodau.

## 9 Unrhyw Fater Arall

9.1 Trefniadau Mynediad i Adeilad y Cynulliad yn ystod Protestiadau

Dywedodd Lorraine Barrett ei bod wedi derbyn cwyn oddi wrth un o'i hetholwyr oedd wedi methu â defnyddio'r fynedfa i'r Cynulliad yn ystod protest ddiweddar. Dywedodd Nerys Evans bod y mater wedi ei ddwyn i sylw Uned yr Heddlu ac na fyddai cyfyngu ar fynediad yn y dyfodol. Mynegodd aelodau bryder hefyd bod nifer o fagiau wedi eu gadael gan brotestwyr ar ystad y Cynulliad. Nodwyd bod rhai ymwelwyr â'r Cynulliad yn cael eu dychryn gan brotestwyr y tu allan i'r fynedfa.

Gwnaeth yr aelodau gais am i faterion yn ymwneud â mynediad i ymwelwyr a phrotestwyr gael eu hadolygu er mwyn rhoi sylw mor fanwl â phosibl iddynt. Dylid hefyd ystyried materion yn ymwneud ag adeilad newydd y Cynulliad.

**Gweithredu: John Bowley**

9.2 Gwybodaeth sydd wedi ei gynnwys mewn Papurau Egluro Cyflogau

Mynegwyd pryder gan aelodau am y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar glawr papurau egluro cyflogau, yn enwedig y rhai a anfonir yn uniongyrchol i swyddfeydd yr etholaethau heb brif amlen. Dywedodd Wayne Cowley bod y mater wedi ei drafod gyda darparwr y gyflogres.

**Gweithredu: Wayne Cowley**

9.3 Llythyr gan Karen Sinclair

Roedd Karen Sinclair wedi anfon llythyr at holl aelodau Pwyllgor y Ty yn gofyn am ymchwiliad i achos o ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol yn ddiawdurdod yn achos enwau dau o'r ymgeiswyr am swydd Cwnsler Cyffredinol.

Cytunodd yr aelodau i beidio â chymryd unrhyw gamau mewn perthynas â staff Swyddfa'r Llywydd.

9.4 Gofynnodd yr aelodau am i fannau cyhoeddus y Cynulliad gael eu glanhau yn ystod y gwyliau.

**Gweithredu: Nerys Evans**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 13 Mai 2004
**Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty**